# CEFNOGI DARGYFEIRIO MENYWOD O GEFNDIROEDD ETHNIG AMRYWIOL

## 1. Hyrwyddo Dargyfeirio

Mae menywod sydd yn amrywiol o ran ethnigrwydd yn llai tebygol o ddewis/cael cynnig Datrysiad y Tu Allan i'r Llys (OoCD) oherwydd:

- Ofn a diffyg ymddiriedaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) yn dilyn profiadau personol, teuluol a chymunedol
- Straen a thrawma hiliol wrth iddynt gael eu harestio a rhyngweithiadau blaenorol â'r Heddlu
- Rhagfarn hiliol a rhagfarn ar sail rhyw a lens risg/perygl wrth asesu yn y ddalfa yn arwain at dariffau uwch
- Cyngor cyfreithiol aneglur
- Diffyg cymorth a gwneud penderfyniadau holistaidd yn ystod y cyfnod cadw yn y ddalfa rhwng yr Heddlu a gwasanaethau cymorth Dargyfeirio

## Anghymesuredd

Mae hyn yn golygu bod nifer anghymesur o fenywod o'r fath yn treiddio'n ddyfnach i'r System Cyfiawnder Troseddol (CJS). Mae hyn yn niweidiol i gyfleoedd bywyd yn y dyfodol, yn drawmatig, ac yn creu profiad o gyfiawnder sy'n rhagfarnllyd a gwahaniaethol o ran hil.

Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn hyrwyddo'r angen am fwy o ffocws, ymrwymiad a darpariaeth o brofiadau a chyfleoedd dargyfeirio cynhwysol sy'n wrth-hiliol ac yn gymwys yn ddiwylliannol i fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd wedi'u lleoli yn y gymuned mewn mannau diogel i fenywod o ran rhywedd gyda darparwyr arbenigol.

## 2. Deall Realiti Bywyd

Gall menywod o gefndiroedd ethnig amrywiol wynebu realiti cymhleth yn cynnwys:

- Straen a thrawma hiliol
- Diffyg ymddiriedaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) a phrofiadau gwael o'r system, yn enwedig mewn perthynas â'r Heddlu
- Hunan-barch isel
- Chwalfa deuluol
- Trais rhywiol a cham-fanteisio
- Trais domestig a thrais ar sail rhywedd
- Defnyddio sylweddau
- Iechyd meddwl a hunan-niweidio
- Rheolaeth emosiynol wael
- Perthnasoedd afiach
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (profiadau ACE) a Thrawma
- Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)
- Anabledd (heb) ddiagnosis
- Tlodi
- Cyfrifoldeb rhiant

## 3. Yn ystyriol o Hil a Rhywedd

Mae menywod o gefndiroedd ethnig amrywiol angen:

- Dull system gyfan, cydweithredol ac amlasiantaethol
- Ymyriad cynnar ac arbenigol
- Mannau diogel i fenywod/canolfannau yn y gymuned
- Cymorth wedi'i seilio ar anghenion a chymorth wedi'i deilwra
- Ffocws ar ddargyfeirio, adsefydlu ac ymatal
- Hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i fenywod a'u teuluoedd
- Deall amrywiaeth ethnig, treftadaeth ac anghenion diwylliannol

## 4. Ystyriaethau Penodol

**Ydych chi'n myfyrio ar eich ymarfer a'ch dull o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r canlynol:**

- Eich rôl a'ch grym
- Eich arddull cyfathrebu
- Rhagfarn hiliol a diarwybod
- Rhagfarn ar sail rhywedd
- Rhagfarn grefyddol
- Tariffau uwch a defnyddio lens risg
- Menywod yn ymddiried ynoch chi
- Meddyliau darparwyr dargyfeirio

**Ydych chi'n...?**

- Ystyriol o Hil a Rhywedd
- Ystyriol o Drawma
- Ystyriol o Drawma Hiliol
- Gwrth-hiliol
- Cymwys yn ddiwylliannol
- Adferol

**Ydych chi wedi ystyried?**

- Cyfrifoldebau magu plant
- Anghenion anabledd
- Anghenion iechyd meddwl
- Anghenion defnyddio sylweddau
- Anghenion iaith
- Anghenion cymorth dargyfeirio
- Anghenion cyngor cyfreithiol
- Profiad ac anghenion dioddefwyr

## 5. Cydweithio

Dylai penderfyniadau ynghylch dargyfeirio a datblygu cynllun gynnwys yr holl randdeiliaid:

- Y menywod
- Yr Heddlu/Heddlu Diogelu Plant
- Darparwr dargyfeirio menywod
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Iechyd
- Darparwyr arbenigol eraill i fenywod h.y. gwasanaethau trais domestig

## 6. Cytuno ar Ddargyfeiriad

Dylech chi gynnig cymorth sydd:

- Dan arweiniad darparwr dargyfeirio
- Wedi'i gyd-gynhyrchu gyda Menywod
- Wedi'i leoli yn y gymuned mewn mannau/canolfannau sy'n ddiogel i fenywod
- Ar ffurf cyffyrddiad ysgafn 3-5 ymyriad
- Yn diwallu anghenion ac yn holistaidd
- Yn rhag-gymdeithasol
- Ar gael bob wythnos fel arfer am gyfnod o 3 mis o leiaf

## 8. Cofiwch...

**Wedi'i leoli yn y gymuned**
**Wedi'i arwain gan fenywod**
**Holistaidd**
**Diwallu anghenion**
**Hyrwyddo Dargyfeirio**
**Bod yn ystyriol o rywedd a hil**
**Bod yn ystyriol o drawma hiliol**
**Cydweithio**

## 7. Cymorth Dargyfeirio

Mae cymorth a darpariaeth dargyfeirio fel arfer yn cael eu darparu er mwyn diwallu anghenion holistaidd. Byddant yn **cynnwys 3-5 ymyriad** yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

Cymorth emosiynol a chymdeithasol
Cymorth defnyddio sylweddau
Profiadau cymdeithasol
Cyfiawnder adferol
Therapi Iechyd Meddwl
Datblygu perthnasoedd iach
Addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
Profiadau cyfoethogi
Cymorth magu plant
Datblygu hunan-alluedd ac atebolrwydd personol
Asesiad/cymorth anabledd


**Cynnwys gan: Mark Jones**
Cyfarwyddwr yn Higher Plain, Athro Gwadd yn y Ganolfan Troseddeg, Prifysgol De Cymru
**Dyluniwyd gan: Lauren Hopkins**
Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cymru sy'n Ystyriol o Drawma